# Trefniadaeth Ysgolion Cynradd

Addysg

**Atodiad A4**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfarfod o:** | Banel Adolygu Dalgylch Y Berwyn | **Dyddiad:** | 4 Chwefror 2010 |

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Liz Saville Roberts (LSR); Dewi R Jones (DRJ); Sharon Jones (ShJ); Alyson Evans (AE); W. Ann Jones (WAJ); Edwina Owen (EO); Bethan Emyr Jones (BEJ); Llyr Edwards (LlE); Dylan Davies (DD); Rhiannon Dafydd (RhD); Dorothy Ann Jones (DAJ); Shan Mererid Edwards (ShME); Brian Llwyd (BLl); Aeron Prysor Jones (APJ); Nia Roberts (NR); Jano Owen (JO); Elwyn Edwards (EE); Dylan Edwards (DE); Dilys Ellis-Jones (DEJ); Gareth Llewelyn (DLl); Alan Evans (AE); Ann E Jones (AEJ); Sian Gwenllian (SG); J Blake (John Blake); Dewi Davies (DD); Seimon Williams (SW); Tony Bate (TB); Sion Llewelyn (SLl); Gwion Lynch (GL); Llinos Clwyd Owen (LlCO); Nia Wyn Morris (NWM); Teleri Llwyd Roberts (TLlR); Carole Burgess (CB); Hefin Owen (HO); Gareth Williams (GW) Cefyn Williams (CW); William Edwards (WE) Rhian Llwyd Dafydd (RhLlD) Gwilym Hughes (GH); Dylan Bryn (DB) |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Siwan Haf Davies (SHD); Rosalind Williams (RW). |

**Crynodeb gweithredol**
***(Nodi pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, a nodi unrhyw bwyntiau sydd angen eu cyfathrebu i fforwm arall; gan bwy, erbyn pryd)***

| **Rhif Eitem** | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** | **Gan** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Croeso ac Ymddiheuriadau | Estyn gwahoddiad i gadeirydd llywodraethwyr Llangwm, Cynnwyd, Llandrillo, Carrog a Glyn Dyfrdwy | SW | 23-03-10 |
| **5.** | Modelau | Cywiro'r gwallau yn y papur Modelau erbyn y cyfarfod nesaf. | TB | 23-03-10 |

| Cofnod Llawn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif Eitem** | **Eitem/ Pwnc** | **Gweithrediad** | **Gan** | **Erbyn** |
| **1.** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd y Cynghorwyr Wil Edwards a Cefyn Williams.<br><br>Cyflwynwyd hefyd Gwilym Hughes, a fydd yn rhoi adroddiad ar Ysgol Gydol Oes a Dylan Bryn sydd wedi ei gomisiynu i wneud Asesiad Ardrawiad Iaith a Chymunedol yn y dalgylch.<br><br>Gofynnwyd i'r Cyngor estyn gwahoddiad i gadeirydd llywodraethwyr Llangwm, Cynnwyd, Llandrillo, Carrog a Glyn Dyfrdwy. Gofynnodd LSR a oedd hyn yn angenrheidiol gan mai bwydo'r uwchradd mae'r ysgolion hyn. Mae'n bosib anfon adroddiad i'r rhain a'u gwahodd i'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai swyddogion yn cysylltu gyda swyddogion yn siroedd Conwy a Dinbych i drafod yr uchod. | SW | 23-03-10 |
| **2.** | **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** | <u>Modelau</u><br><br>Roedd rhai yn anghyfforddus fod mwy o fodelau wedi eu cynnwys nag y dangoswyd ffafriaeth iddynt yn y PAD. Eglurodd LSR ei bod yn rhaid edrych yn wrthrychol ar y dalgylch cyfan gan fod nifer o opsiynau yn gynigion amlwg; hynny yw cynigion yn ogystal â'r tri model. Byddai cynghorwyr ar lefel y sir gyfan yn disgwyl bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i bob cynnig rhesymol, a gwell felly eu cynnwys am drafodaeth yn y Panel Adolygu Dalgylch fel bod modd eu gwyntyllu'n iawn.<br><br>Gofynnwyd a ddylai'r cofnodion fynd ar y wê cyn eu cadarnhau gan bawb.<br><br>Gofynnwyd a oes gan aelodau'r PAD ddylanwad dros beth mae LSR yn ei gynnig i'r Cyngor. Eglurodd LSR y drefn ddemocrataidd. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i aelodau'r PAD leisio'u barn yn y cyfarfodydd hyn yn gadarn.<br><br>Anfonwyd y newyddlen i'r ysgolion er mwyn i'r penaethiaid wneud sylwadau arni.<br><br>*Cytunwyd* i ddod yn ôl i'r PAD cyn symud ymlaen i gyhoeddi'r cofnodion.<br><br>Mae trafodaethau â'r Esgobaeth yn mynd yn eu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | blaen.<br><br><u>Ymweliad â siroedd eraill</u><br><br>Gofynnwyd i swyddogion newid y cofnodion i nodi fod Sir Ceredigion wedi nodi bod pryderon am gyflwr ac addasrwydd adeiladau yn un ffactor a yrrodd y cytundeb i ad-drefnu ysgolion, ac nad oes pryderon am gyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion dalgylch y Berwyn.<br><br><u>Materion cyllidol</u><br><br>Eglurodd DRJ fod diweddariad ar y sefyllfa ers PAD2 – mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi toriad o £150,000 ar y gyllideb ddatganoledig i'r ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn gyntaf ac adolygu hynny wedyn.<br><br><u>Modelau Posibl</u><br><br>Roedd cydweithio, a datblygu hynny, yn awydd a fynegwyd gan bob grŵp.<br><br>Nodwyd mai'r addewid fyddai y byddai modelau a chostio yn rhan o'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn, ond nad oedd sôn am gostau yn rhan o'r papur modelau. Eglurodd HO fod y costau wedi eu cyflwyno i'r PAD yn yr ail gyfarfod. Nid oes arbediad trwy gydweithio.<br><br>Cytunwyd: i ddiweddaru'r cofnod a'i anfon at yr aelodau.<br><br><u>Newyddlen</u><br><br>Angen newid dyddiad 8fed o Chwefror (dyddiad cychwyn cyfarfodydd gydag ysgolion unigol) yn ogystal â'i wneud yn gliriach beth oedd y modelau a ddeilliodd o drafodaethau'r PAD a pha rai sydd yn ychwanegol.<br><br>*Cytunwyd i'r uchod* | | |
| **3.** | **Asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol.** | Cyflwynodd Dylan Bryn ei hun ac eglurodd ei fod yma ar wahoddiad Cyngor Gwynedd gan ei fod wedi ei gomisiynu i wneud gwaith ar effaith ardrawiad iaith a chymunedol.<br><br>Rhan gyntaf y gwaith fyddai i ddiweddaru'r gwaith asesiad iaith a wnaed 2 flynedd yn ôl. Mae asesiad cymunedol i'w gynnal hefyd a gwneir hyn drwy gylchredeg holiadur i sefydliadau cymunedol perthnasol yn ogystal â thrwy wefan Cyngor Gwynedd. Bydd copïau papur yn cael eu rhoi i'r | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgolion er mwyn eu rhannu â'r rhieni. Byddai wedyn gyfarfod i drafod effeithiau posib unrhyw ad-drefnu ysgolion yn y gymuned. Bydd yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r holiadur cymunedol ac yn holi barn yr ysgolion ar beth y gellir ei wneud er mwyn cryfhau sefyllfa ieithyddol a chymunedol. Bydd adroddiad wedyn yn mynd i sylw LSR ar gyfer ystyriaeth.<br><br>Nodwyd fod yr amserlen yn dynn er mwyn cyrraedd y cylch democrataidd. Trafodwyd newid yr amserlen er mwyn rhoi digon o amser i bobl megis Merched Y Wawr a chynghorau cymuned gael ymateb. Holwyd faint o bryder fyddai methu'r cylch democrataidd. LSR yn bryderus am hynny gan ein bod wedi cael ein barnu gan ESTYN am fod yn araf yn y broses.<br><br>*Cytunwyd:* newid amser dychwelyd yr holiadur i'r 1af o Fawrth a chynnal y cyfarfod gyda Dylan Bryn ar 16 Mawrth 2010 yn Ysgol Y Berwyn. Byddai hyn yn golygu symud y PAD i 23ain a 30ain o Fawrth. | | |
| **4** | **Crynodeb o ansawdd addysg ysgolion dalgylch Y Berwyn** | Cyflwynwyd y papur gan egluro fod hyn wedi dod ar gais y PAD o'r cyfarfod cyntaf.<br><br>Eglurwyd mai gradd 2 neu uwch yw dymuniad y Cyngor ac nad oes gradd dim is na 2 yn nalgylch Y Berwyn sydd yn adlewyrchiad da ar yr ysgolion.<br><br>Nodwyd pryder am gyfrinachedd y ddogfen o ystyried y nifer bychan o ddisgyblion y cyfeirir atynt mewn ambell ysgol. Nodwyd bod y papur wedi'i dynnu oddi ar wefan y Cyngor. | | |
| **5.** | **Modelau** | Cyflwynodd TB y ddogfen.<br><br>Eglurodd batrwm y ddogfen gan egluro fod y ddwy dudalen gyntaf yn grynodeb o'r 7 model. Nodwyd bod rhannau sydd wedi'u duo yn golygu bod ysgol yn cau yn statudol - mewn rhai amgylchiadau, golygai hyn gau'r safle yn gyfan gwbwl, tra mewn rhai golygai ail-ddefnyddio safleoedd ar gyfer ysgolion newydd.<br><br>Mae ail ran y papur yn crynhoi manteision ac anfanteision y modelau. Mae'r wybodaeth yma wedi dod o'r pecyn dadansoddiad ystadegol a fu'n bwydo'r matrics a oedd yn blaenoriaethu trefn adolygu'r dalgylchoedd. Tynnwyd sylw fod rhai darnau o'r wybodaeth yn wallus a bod angen | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sicrhau fod y wybodaeth yn gywir. Cytunwyd i wneud hyn a chylchredeg papur diwygiedig ar ôl y cyfarfod.<br>*Cytunwyd:* i gywiro'r gwallau erbyn y cyfarfod nesaf.<br><u>Cymuned ddysgu gydol oes</u><br>Cafwyd cyflwyniad gan Gwilym Hughes a fu'n ymweld â dwy ysgol gydol oes newydd yn ddiweddar. Un yn Lloegr, sef Hadley, Telford a'r llall yn Ne Cymru sef Gartholwg, Pontypridd.<br>Gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy ysgol oedd yn y ffordd y maent yn cael eu rheoli. Rheolir Ysgol Hadley gan un pennaeth ac un corff llywodraethol tra rheolir Gartholwg fel unedau ar wahân gyda chorff llywodraethol gwahanol ar gyfer y ddau safle. Nodwyd teimlad bod y strwythur yng Ngartholwg wedi golygu colli rhai cyfleoedd.<br>Mae manteision mewn datblygu ysgol gydol oes a gwelwyd hyn yn yr ysgolion yma. Mae'n bosibl cynnwys nifer o bethau gwahanol ar safle megis canolfan gymunedol, llyfrgell, cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau plant a theuluoedd, cyfleusterau cynadleddau a.y.y.b. Mantais arall yw rhannu adnoddau ac arbenigedd staff.<br>Gallai datblygu syniad newydd cyffrous o gymuned ddysgu gydol oes fod yn gynllun addas i ddenu cyllid o dan y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Y Cynulliad.<br>Nodwyd fod cyfle gwirioneddol i ddatblygu cynllun gydol oes arloesol yn nalgylch y Bala | TB | 23-03-10 |
| **6.** | **Trafodaeth Gyffredinol** | <u>Rhannwyd i grwpiau i drafod y modelau dan sylw. Cyflwynwyd sylwadau bras ar bapur ar ddiwedd y cyfarfod. Cyflwynir yma grynodeb o'r nodiadau a'r sylwadau a gyflewyd ar lafar.</u><br><u>Grŵp 1</u><br>Angen diffiniad gwell o gydweithio.<br>Gwrthwynebwyd modelau 6 a 7 oherwydd yn eu barn nhw y byddai'n lladd cymunedau.<br><u>Grŵp 2</u><br>Model 2 - cefnogi, gwelir potensial i'r ddwy ysgol | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gynradd ddefnyddio adnoddau.  Hefyd gellir cydweithio'n well efo'r ysgol feithrin.<br><br>Gwrthwynebwyd modelau 6 a 7 a ffafriwyd model 2.<br><br><u>Grŵp 3</u><br><br>Model 1 – heb ei drafod gan nad oes pwrpas sefyll yn llonydd.<br><br>Model 2 - hwn yw'r model mwyaf realistig, ond rhaid peidio ag anghofio yr ysgolion y tu allan i'r dref a rhaid cofio nad oes modd defnyddio adnoddau'r dref heb gostau teithio ychwanegol.  Pryder ynghylch bod yn orhyderus o greu angenfil mawr a methu ei reoli wedyn.<br><br><u>Grŵp 4</u><br><br>Model 1 – dim newid<br><br>Model 2 - mae'r ddwy ysgol yn y dref wedi trafod addysg gynradd y dref eisoes.  Byddai ysgol newydd sbon ger y llyn a'r ganolfan hamdden yn ddelfrydol. Yn fodlon ystyried ysgol gydol oes.  Rhaid cofio am yr adnoddau sydd yn y dref yn barod e.e. Neuadd Buddug, llyfrgell, canolfan hamdden, a chanolfan Glanllyn ar gyrion y dref. Gwerthfawrogid ysgol newydd sbon petai cynllun i greu ysgol newydd yn nhref y Bala.<br><br><u>Ysgol Gydol Oes</u><br><br>Gofynnwyd petai penderfyniad i beidio uno'r ysgol uwchradd i gynllun y Bala a ydym mewn sefyllfa i ddweud beth fydd dyfodol Y Berwyn.<br><br>Dywedodd DRJ fod GH wedi ei dod i weithio ac edrych ar y maes ysgol gydol oes ond hefyd bydd yn edrych ar drefniadaeth ysgolion uwchradd.  Mae aelodau'r Cyngor wedi gofyn i'r Adran Addysg edrych ar drefniadaeth ysgolion uwchradd y sir. Ysgol Y Berwyn yw'r unig ysgol uwchradd yn ardal Meirionnydd sydd â 6ed dosbarth ond rhaid cofio mai un elfen o'r ddarpariaeth yw'r 6ed dosbarth.<br><br>Gofynnwyd am arweiniad ar y model o gydweithio. Nodwyd bod nifer o opsiynau posib ond bod manylion yn deillio o gytuno  ar yr egwyddor o gydweithio â'r ysgolion a fyddai'n rhan o'r trefniant.<br><br>Mae trafodaethau da iawn wedi digwydd â'r Esgobaeth yn barod a bydd trafod pellach wedi digwydd erbyn y cyfarfod nesaf. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **6.** | **Unrhyw fater arall** | Dim | | |
| **7.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | 18:30 ar 23 Mawrth 2010 – Ysgol Y Berwyn<br>18:30 ar 30 Mawrth 2010 – Ysgol y Berwyn | | |